# Cofnodion Cyfarfod CCG 1 8.23

Neuadd Cymuned Glantwymyn

**19:528: Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Dafydd Evans, Elwyn Vaughan, Aled Griffiths, Gwen Lloyd, Gwenfair Rhys-Davies, Gareth Owen, Bedwyr Fychan, Iwan Jones, Glyn Jones, Paul Hughes, Huw Williams, Sandra Evans (Clerc)

**19:529: Ymddiheuriadau**: William Owen, Deryck Lewis, Rhodri Wigley

**19:530: Datganiadau o ddiddordeb**: Gareth Wyn Jones, Paul Hughes –Cais cynllunio Neuadd Glantwymyn

**19:531: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Mehefin** 2023

**19:532:1:** Mae angen cywiro enw Deryck Evans i Deryck Lewis (19:538)

**19:532:2:** Mae angen cywiro 'iawd' i 'iard' (19:525)

**19:532:3; Baw cŵn Cemaes-** nodwyd nad oedd James Thomson o Gyngor Sir Powys wedi holi am y trefniadau ar gyfer gwagio'r biniau mewn ffordd briodol. (Ms. Thomson sy'n ei wneud ar hyn o bryd.) Mae cais wedi cael ei gyflwyno gan Gareth Wyn Jones ar ran y Cyngor i symud y bin o'r fynedfa'r feithrinfa a'i osod wrth y bin halen.'

Cynigwyd bod y cofnodion yn gywir fel arall gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.

**19:533: Adroddiad y Clerc: Dim**

**19:534: Cynllunio** Nid oedd Elwyn Vaughan yn rhan o'r trafodaethau isod.

**19:534:1: Cyfeirnod: 23/0664/FUL** Cynigiwyd y dylid cefnogi'r cais gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd yn unfrydol. Croesawyd y cynlluniau hyn a'r arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr estyniad i'r neuadd i'r Ysgol Feithrin.

**19:534:2: Cyfeirnod: 23/1111/FUL** Gosod yurt ar gyfer gwyliau ac adeiladau cysylltiedig â gwella'r mynediad: Cil-y-Bryn, Hill Side Retreat, Ceinws, Machynlleth Powys. Nid oedd barn gan y Cyngor.

**19:535: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

**19:535**:1: Penodi Archwilydd Mewnol – Yn Dilyn ymholiadau helaeth a chael prisiau gan (Whittingham Riddell, a DRE o'r Drenewydd a chwmni Davies, Lewis and Baker yn Aberystwyth ni ddaethpwyd o hyd i neb hollol addas. Cynigiwyd enw Ms. Eirlys Pugh fel Archwilydd Mewnol i'r Cyngor. Penderfynwyd penodi Mrs

Eirlys Pugh ar sail ei phrofiad a sgiliau sy'n cynnwys bod yn ddwyieithog. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones. Gofynnir i Mrs Pugh archwilio'r cyfrifon yn chwarterol yn unol ag argymhellion Awdit Cymru.

**19:535:**2: Bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i Swyddfa'r Awdit ar ôl y dyddiad cau, y 7fed o Awst. Mae hyn o ganlyniad i'r amser a gymerodd i ddod o hyd i archwilydd mewnol addas. Cysylltir â Swyddfa'r Awdit i nodi hyn ac ymmddiheuro.

Nodwyd y byddai bancio ar-lein yn symleiddio'r broses cadw cyfrifon ac y dylid edrych ar hwn eto.

**19:535:3: Diweddariad ariannol**

Nodwyd bod yr arian a dalwyd yn dilyn camgymeriad clerigol o gyfrif cadw'r Cyngor wedi cael ei ad-dalu i gyfrif cadw'r Ymddiriedolaeth Gwynt 15.6.23.

**Diweddariad Ariannol CCG a'r Gwynt Awst 1af 2023**

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Datganiad banc | Balans – datganiad banc | Sieciau heb eu cyflwyno | Derbyn/talu | Balans gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CCG current** | **80405019** | 9.6.23 | 13,604.01 | 101384 S Evans ***342.80*** 101387 M Fairclough ***125.00*** 101388 Rh Wigley ***4,200.00*** 101389 S Evans ***303.40*** 101390 Gloversure ***42.00*** 101391 Whittingham Riddlell ***108.00*** 101392 Gloversure ***33.60*** 101393 Traed Bêch Twymyn ***5,000.00*** | **Derbyniwyd 3,900.00 28.4.23 Praesept** | |
| | | | | **Cyfanswm 10,154.80** | | **3,449.21** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CCG savings** | **80405035** | **11.7.23** | **6,096.08** | | **6,000.00 Ad-daliad gan y gwynt 15.6.23** | |
| **Gwynt current** | **40052604** | **9.6.23** | **336.22** | 100315 YsgolGlantwymyn **1,000.00** 101316 Powys CC **1335.00** 01317 Lara Halfpenny **200.00** | | **1536.22 (11.5.23) +6,000.00 -2,535.00** <br> **5,004.22** |
| | | | | **Cyfanswm 2,535.00** | | **5,004.22** |
| **Gwynt savings** | **60849707** | **11.7.23** | **11,184.58** | | **Talwyd 6,000.00 i savings y Cyngor 15.6.23 – ad-daliad am gamgymeriad** <br><br> **Talwyd 6,000.00 i current y gwynt 15.6.23** | |
| **Mynwent Llanwrin** | **40500941** | **9.6.23** | **1,803.51** | | **Llog 3.75** | |

Eitemau i'w talu

- Cyflog y Clerc Mawrth mis 3 Mehefin £322.60
- HMRC: Cyfnod Mis 3 (6 Ebrill 2023 i 5 Gorffennaf 2023) £241.80
- Gloversure (INV-25356) £162.00
- Cynigiwyd y dylid talu'r rhain gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.
- Yswiriant - Trafodwyd a ddylid cynyddu'r swm a nodir ar gyfer asedau'r Cyngor. Bydd Aled Griffiths yn cysylltu â chwmni Gallagher.

**19:536: Diffib Darowen** – Bydd y Cyngor yn chwilio am safle amgen i osod y diffib. Disgwylir am ateb gan BT ar hyn o bryd.

**19:537: Gohebiaeth:** Dim

**19:538: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**Elwyn Vaughan - Y Cyngor Sir**

- Mae miliwn o bunnau wedi cael ei sicrhau ar gyfer y datblygid newydd yn neuadd glantwymyn gan Bowys
- Bydd ymweliad safle i sied Abertwymyn i drafod gweledìad. Hefyd gan ei fod y tu allan i'r ffin datblygu gall defnydd diwydiannol dwyn problemau at y dyfodol os bydd angen newid statws defnydd.
- Cynhelir cyfarfod i drafod dyfodol iard halen Llanbrynmair cyn hir
- Y ffordd i'r Vets/Ready Mix. Nid yw'r ffordd wedi cael ei throsglwyddo i Gyngor Sir Powys fel dylai fod wedi digwydd yn 1983. Yn dilyn trafodaethau rhwng Elwyn Vaughan a network rail y gobaith yw y bydd network rail yn rhoi wyneb newydd ar y ffordd wrth drwsio ei eiddo ei hun cyn diwedd y flwyddyn. Cynhelir cyfarfod cyn hir i drafod a fydd Powys yn mabwysiadu'r ffordd. Diolch i Network Rail am eu hewyllys da.
- Perorin, Dol-yr-onnen. Nid oes dim gorfodaeth wedi digwydd eto.
- Pont Machynlleth – y bwriad yw ei chwblhau erbyn y Nadolig

**Gareth Wyn Jones - Y Fforwm Cleifion** - Cynhaliwyd cyfarfod bythefnos yn ôl i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei defnyddio at ddibenion iechyd a lles yn unig.

- Apwyntiadau - Mae cael apwyntiad doctor yn dal i fod yn anodd iawn. Mae angen hefyd fwy o adnoddau ar gyfer ateb galwadau ffôn gan y cyhoedd yn y bore. Nid yw'r ap yn fawr dim o gymorth yn enwedig i bobl hŷn nad ydynt yn gyfarwydd ô thechnoleg.

- Cwynion- Bydd y Cyngor yn gofyn i Awdurdod Addysg Powys beth yw'r drefn cwyno.
  Mynegwyd pryderon dirfawr ynglŷn ê phobl yn cael eu tynnu oddi ar restr meddygon gan eu bod wedi cwyno. Mae Gareth Wyn Jones wedi cynnig bod y drefn gwyno yn cael ei newid gan osod yr holiaduron wrth y drws yn hytrach na wrth ddesg y dderbynfa er cyfleustra, er dwyn i sylw'r cleifion a cheisio sicrhau cyfrinachedd y sawl sy'n cwyno.

- Llais - Erbyn hyn mae'r Cyngor Iechyd Cymunedol wedi newid ei enw i 'Llais'. Anogir pobl i gwyno i Lais i sicrhau tegwch ac ymateb di-duedd.
- Dylid cyflwyno cwynion i Lais yn y lle cyntaf. Os bydd cwyn wedi ei gyflwyno i'r feddygfa yn gyntaf ni all Llais weithredu arno.

- Mae'r Cyngor am weld sicrwydd y bydd cleifion yn cael eu diogelu rhag cael eu tynnu oddi ar restr meddygon nes bydd eu cwyn wedi cael ei asesu gan gorff annibynnol. Gwahoddir Hayley Thomas o Awdurdod Iechyd Powys i gyfarfod a'r Cyngor. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

  Mae'r Cyngor yn siomedig dros ben bod Awdurdod Iechyd Powys wedi torri ei addewid. Er bod rhai'n gwrthwynebu'r datblygiad, roedd y Cyngor wedi cefnogi symud y ddarpariaeth i Fachynlleth cyhyd ag y byddai'r gwasanaeth yn gwella. Cafwyd hefyd addewid y byddai gwasanaeth dod â phresgripsiynau i fan penodol yn lleol ond yn lle hyn oll mae'r gwasanaeth wedi dirywio.

**19:539: Ffyrdd a Phontydd**

**19:539:1: Cemaes** – Mynegwyd pryderon difrifol am ddiogelwch y cyhoedd achos y rhesiad o geir sy'n cael eu parcio wrth ochr y briffordd. Crasiodd lori i borts y Penrhos. Mae gyrrwyr yn methu bacio'n ôl ac nid oes lle i gerbydau pasio ei gilydd. Does dim lle i dynnu mewn rhwng y ceir na gweld a yw'r ffordd yn glir yn enwedig os bydd lori. Mae'r pryderon yn fwy achos Tŷ Cemaes a meithrinfa Traed Bêch Twymyn.

Gofynnir i Draffig Cymru gyfarfod â'r Cynghorwyr ar frys i drafod y sefyllfa. Dymuna'r Cyngor weld croesfan yno i leihau'r peryglon.

Mynegwyd eto bryderon dirfawr bod yr arwydd cyfyngder cyflymdra yn dal i fod wrth droad tan y Ffordd. Mae'r Cyngor eisoes wedi gofyn i'w gosod wrth arwydd enw'r pentref. Cyflwynir y cais hwn eto.

**19:539:2:** Ffordd o Ffridd Gate i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen. Yn dilyn cais ar frys torrwyd rhywfaint ar y gwair wrth ochr y ffordd ond nid oedd yn ddigonol. Mae peryglon i'r cyhoedd o hyd achos diffyg gwelededd, a chulni'r ffordd achos thyfiant y planhigion. Adroddir hwn eto i Bowys. Gwneir cais am gontractwr arall. Nodwyd bod y gwaith torri gwair ochr ffyrdd Darowen yn arbennig o dda.

**19:540: Unrhyw Fater Arall**

- Bancio ar-lein
- Lloches bysiau yn Llanwrin – Cysylltir eto â chwmni Barcud i ofyn iddynt am drwsio'r to.

- Cysylltir eto â Jon Anderson a gofyn iddo wneud arolwg a thocio'r coed ym mynwent Darowen.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom. Dyddiad i'w gadarnhau.